RHIFYN
ISSUE
31
16.10.20

Llais Llantrisant

CROESO
WELCOME

Croeso cynnes i aelod newydd o staff dros dro trwy asiantaeth a fydd yn ymuno â ni wythnos nesaf, Mr D Jones. Bydd Mr Jones yn gweithio fel Cynorthwyydd Addysgu yn Nosbarth 2 yn lle Mrs Lauren Jones. Bydd Mrs Jones yn symud i rôl dros dro newydd yn yr ysgol fel Cynorthwyydd Ymyraethau Llythrennedd, Rhifedd a Lles fel rhan o'n rhaglen adfer ôl-Covid19.

A warm welcome to a new temporary member of agency staff who will join us next week, Mr D Jones. Mr Jones will be working in Class 2 as a Teaching Assistant in place of Mrs Lauren Jones. Mrs Jones will move to a new temporary role in school as a Literacy, Numeracy and Wellbeing Interventions Assistant as part of our post COVID19 recovery programme.

YMGARTREFU
SETTLING IN

Gan nad yw'n bosibl i ni wahodd pawb i mewn i'r ysgol i gael sgyrsiau deng munud gyda'r athrawon y tymor hwn, bydd y staff yn darparu adroddiadau byr a gosod targedau i'r plant erbyn Tachwedd 6ed.

As it is not possible to invite all parents in to school for ten minute chats with the teachers this term, the staff will prepare short interim reports along with targets for the children by November 6th.



Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Adroddiad Tymor yr Hydref 2020
Autumn Term Report 2020

Enw *Name*	
Dyddiad Geni *Date of Birth*	
Dosbarth *Class*	

Sut mae'ch plentyn yn ymgartrefu: *How your child is settling in:*
Targedau *Targets*

Llofnod Athro / Athrawes *Teacher's Signature*	
Dyddiad *Date*	



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

23.10.20 - Diwrnod y Cenhedloedd Unedig
United Nations Day
23.10.20 - Diwrnod ola'r hanner tymor cyntaf
Last day of first half term
02.11.20 - Plant yn dychwelyd
Children return
13.11.20 - Diwrnod Plant Mewn Angen
Children In Need Day
16.11.20 - Wythnos Wrth Fwlio
Anti-bullying Week

CYNHAEAF
HARVEST

Os hoffech gyfrannu eitemau bwyd at ein casgliad ar gyfer Banc Bwyd Taf Elai, anfonwch eich rhoddion i'r ysgol erbyn 02.11.20 (diwrnod cyntaf nôl ar ôl hanner tymor) os gwelwch yn dda. Gofynnwn am fwydydd sych / tun wedi'u clymu mewn bagiau plastig, os gwelwch yn dda, yn unol â chanllawiau diogelwch y Banc Bwyd. Diolch yn fawr iawn i chi ymlaen llaw am eich haelioni.

If you would like to contribute towards our food collection for Taff Ely Food Bank, please send your contributions to school by 02.11.20 (first day back after half term) please. We ask for dry / tinned foods to be sealed in plastic bags please in line with safety guidance from the Food Bank. Thank you in advance for your generosity.

GADAEL Y SAFLE YN Y PRYNHAWN
LEAVNG THE SITE IN THE AFTERNOON

Fel y gwyddoch, mae staff yr ysgol wedi cynllunio yn effeithiol ac yn gweithio'n galed iawn yn ystod y dydd i sicrhau nad yw grwpiau o blant o ddosbarthiadau eraill yn cymysgu gyda'i gilydd yn ystod y dydd. Mae'n destun pryder, felly, fod grwpiau o blant yn chwarae gyda'i gilydd ar laswellt y bae bysiau ar ddiwedd y dydd, a hwythau o wahanol ddosbarthiadau. Nid ydym eisiau bod mewn sefyllfa ble fydd dosbarthiadau o blant yn cael eu heffeithio gan achos o COVID19 a mwy o blant nag sydd angen yn gorfod aros gartref a hunan ynysu. Diolchwn i chi am adael safle'r ysgol yn brydlon ar ddiwedd y dydd.

As you will be aware, the staff have planned well and are working hard all day to ensure groups of pupils do not mix with other classes during the school day. It is, therefore, a cause for concern, that groups of children are playing on the grassed area within the school bus bay with children from classes other than their own. We would not wish to be in a position where classes of children are affected by a potential case of COVID19 and more children than necessary be forced to remain at home and self isolate. We thank you for leaving the school site promptly at the end of the day.





GWEFAN YR YSGOL
THE SCHOOL WEBSITE



Cofiwch fwrw golwg ar y tudalennau pwysig isod yn rheolaidd:
Remember to regularly visit the important pages below:

https://www.yggglantrisant.cymru/llais-llantrisant-cylchlythyr-yr-ysgol-school-news/

https://www.yggglantrisant.cymru/coronafeirws-coronavirus/

https://www.yggglantrisant.cymru/stream/newsletters/full/1/-//

CYSYLLTU Â'R STAFF
CONTACTING THE STAFF

Hoffem atgoffa pawb, gyda phob parch, na fydd yn bosibl i'r athrawon siarad â chi yn syth os ydych yn ffonio yn ystod amser gwersi. Bydd Mrs Krieger yn cymryd neges a gofyn i'r athrawon gysylltu nôl pan fydd yn gyfleus. Cofiwch ddarllen Llais Llantrisant 30 i ddod o hyd i gyfeiriadau ebost y dosbarthiadau neu fwrwch olwg dros dudalennau'r dosbarthiadau ar wefan yr ysgol. Gwerthfawrogir eich dealltwriaeth.

We should like to remind everyone, with all due respect, that it will not always be possible for teaching staff to speak with parents / carers should you telephone during lesson time. Mrs Krieger will take your message and ask the staff to call you back when convenient. Remember to read Llais Llantrisant 30 for the class email addresses. Alternatively, check the class pages on the school website. Your understanding is appreciated.



CYSYLLTU Â RHIENI
CONTACTING PARENTS

Gan obeithio na fydd angen cysylltu â rhieni gyda'r hwyr neu dros y penwythnos, byddwch yn ymwybodol y byddwch yn derbyn galwad ffôn heb rif yn ymddangos, efallai, os bydd angen i'r ysgol gysylltu â chi ar frys ynghylch achos o COVID19.

In the hope that we will not have to contact parents late in the evening or on weekends, please be mindful that you may receive telephone calls from a 'withheld number' should we need to contact parents urgently due to a COVID19 case.

EBYST O WEFAN YR YSGOL
EMAILS FROM SCHOOL WEBSITE

I sicrhau nad ydych yn colli unrhyw ebyst pwysig, ychwanegwch 'notifications@primarysite.net' i'ch cyfrif ebost fel 'safe sender'.

To ensure that you don't miss any important emails, please add 'notifications@primarysite.net' to your email account's 'safe sender' list.



DYSGU O BELL - TASGAU ARLEIN
DISTANCE LEARNING - ON-LINE TASKS

Fel y gwyddoch, bydd y flwyddyn addysgol o'n blaenau yn un llawn heriau i ni i gyd ond, gyda chefnogaeth ein gilydd, fe fyddwn yn eu goresgyn!
Bydd adegau pan fydd plant yn gorfod aros gartref am nifer o resymau. Weithiau, bydd unigolion yn aros gartref oherwydd salwch ac ar adegau eraill, bydd dosbarthiadau cyfan yn gorfod aros gartref oherwydd amgylchiadau mwy difrifol. Mae'r sefyllfaoedd hyn i gyd yn dod â gwahanol heriau i'r staff.

1. **Os bydd plentyn yn anhwylus ac yn aros gartref oherwydd salwch cyffredinol, ni fydd y staff yn darparu tasgau / gwaith iddynt - fel sydd wastad wedi digwydd o'r blaen pan fydd salwch. Y peth pwysig yw fod y plant yn swatio i mewn ac yn gwella.**
2. **Os bydd plentyn yn gorfod aros gartref i aros am ganlyniadau prawf (eu canlyniadau nhw neu aelod o'r teulu) bydd yr athrawon yn darparu tasgau am y cyfnod hwnnw.**
3. **Os bydd plentyn yn gorfod hunan-ynysu oherwydd COVID19, bydd yr athrawon yn darparu tasgau am y cyfnod hwnnw.**
4. **Os bydd dosbarth cyfan yn gorfod aros gartref a hunan-ynysu oherwydd COVID19, bydd yr athrawon yn darparu tasgau am y cyfnod hwnnw.**

Gyda phwynt 2 a 3 uchod, rhaid i ni gofio fod yr athrawon yn yr ysgol yn addysgu gweddill y dosbarth felly efallai bydd peth oedi tra'n gosod / cynllunio'r tasgau. Gwerthfawrogir eich cydweithrediad a'ch dealltwriaeth. Os edrychwch chi ar dudalennau'r dosbarthiadau ar wefan yr ysgol, fe welwch fod tudalennau'r dosbarthiadau llynedd wedi'u harchifo. Os ydych yn chwilio am rywbeth i'w wneud tra'n aros, mae llwyth o dasgau o dan hen ffolderi 2019 - 2020.

As you will be aware, this academic year bodes to be one of many challenges for us all, but with us all supporting each other we shall overcome them!
There will be times when children will have to stay home for one of many reasons. At times, individuals will be required to stay at home due to illness whilst at other times, whole classes of pupils might have to stay at home due to more serious circumstances. These various scenarios will present differing challenges to the staff.

1. *If a child is unwell and has to stay at home due to general illness, staff will not prepare tasks / work - as is the case currently with general illness. The important thing is that the children hunker down and get better!*
2. *If a child has to stay at home awaiting test results (their own or a family member's) teachers will provide tasks for this period.*
3. *If a child has to stay at home and self-isolate due to COVID 19, teachers will provide tasks for this period.*
4. *If a whole class of children have to stay at home and self-isolate due to COVID 19, teachers will provide tasks for this period.*

In regards to point 2 and 3 above, we have to be mindful that the teachers will be in school teaching the rest of the class so there might be some delay before tasks are provided. We appreciate your cooperation and understanding. If you look at the class pages on the school website, you'll come across last year's class pages archived. If you are looking for something to do whilst waiting, there's a wealth of activities archived under the 2019 - 2020 folders.

AD-DALIADAU
REFUNDS

Os daloch chi am ymweliadau addysgiadol oedd wedi'u canslo llynedd oherwydd COVID-19, bydd yr arian a daloch chi yn aros ar gyfrif eich plant. Mae Mrs Krieger yn cadw cofnod manwl o'r holl arian a bydd yn cael ei ddefnyddio at ddigwyddiadau yn y dyfodol. Hoffwn eich sicrhau na fyddwch yn colli'r arian yma. Fodd bynnag, os hoffech dderbyn ad-daliad ebostiwch yr ysgol a bydd Mrs Krieger yn darparu siec i chi.
If you paid for educational trips etc. which were cancelled due to COVID-19 last academic year during the country wide lockdown, any monies you paid to school will remain on your child / children's accounts. Mrs Krieger has a detailed ledger which notes these sums. All monies will be used against any further activities and we should like to ensure you that this money will not be lost. However, should you wish to receive a refund, please email school and Mrs Krieger will provide you with a cheque.